

## **Digwyddiadau Bywyd Gwyllt Conwy Gwybodaeth ac Amodau Archebu**

### **Archebu**

Gofynnir i chi archebu lle ar digwyddiad o flaen llaw oni nodir yn wahanol yn y rhaglen.

Mae hyn am y rhesymau canlynol:

- Er mwyn i chi fwynhau'r digwyddiad.
- Iechyd a Diogelwch: er mwyn sicrhau nifer gywir o arweinwyr. Gall hyn amrywio o'r naill digwyddiad i'r llall gan ddibynnu ar y math o ddigwyddiad a'r arweinydd.
- Er mwyn i arweinwyr fod â'r manylion gofynnol am bob cyfranogwr.

Os bydd digwyddiad yn llawn, gellir cadw eich enw wrth gefn. Os bydd cyfranogwr yn cyrraedd ar ddechrau'r ddigwyddiad ond nad yw wedi archebu lle, mae hawl gan yr arweinydd i beidio â derbyn yr unigolyn ar y digwyddiad.

### **Iechyd**

Cyfrifoldeb y cyfranogwyr yw gwneud yn siŵr eu bod yn ddigon corfforol heini i gymryd rhan yn y digwyddiad y maent wedi'i dewis. Bydd arweinwyr yn gofyn i gyfranogwyr ddatgelu unrhyw wybodaeth feddygol a allai effeithio arnynt ar unrhyw adeg yn ystod y digwyddiad. Mae'r wybodaeth yma er mwyn diogelwch a lles y cyfranogwyr.

### **Dillad, Esgidiau, Bwyd a Diod**

Cyfrifoldeb y cyfranogwyr yw gwneud yn siŵr eu bod yn gwisgo dillad ac esgidiau addas ar gyfer yr amodau h.y. esgidiau cadarn a dillad gwrth ddŵr. Argymhellir y dylai cyfranogwyr ddod â bwyd a diod sy'n addas ar gyfer eu hanghenion a hyd y digwyddiad. Dewch ag eli haul efo chi os oes angen. Mae gan yr arweinydd hawl i wrthod cyfranogwyr sydd heb yr offer priodol.

### **Plant a Theuluoedd**

Mae rhai digwyddiadau yn arbennig o addas ar gyfer teuluoedd a phlant. Gweler manylion y digwyddiad. Mae'n rhaid i riant neu oedolyn dros 18 ddod gyda plant dan 18 oed.

### **Amser Dechrau**

Bydd y digwyddiadau yn dechrau ar yr amser dechrau, dim ots a yw pawb wedi cyrraedd neu beidio.

### **Tywydd**

Bydd arweinwyr y digwyddiadau yn y man cyfarfod dim ots beth yw'r tywydd. Ond, mewn amodau tywydd eithriadol, efallai y bydd y digwyddiad yn cael ei haddasu neu'n cael ei chanslo i sicrhau diogelwch.

### **Newidiadau**

Mae'r trefnwyr yn cadw'r hawl i addasu'r rhaglen heb rybudd. Credir bod y manylion yn y rhaglen yn gywir ar adeg argraffu. Mae arweinydd y digwyddiad yn cadw'r hawl i addasu'r digwyddiad yn ystod y digwyddiad os oes angen oherwydd rhesymau diogelwch.

### **Lluniau**

Yn ystod y digwyddiadau, bydd yr arweinwyr o bosib yn tynnu lluniau'r cyfranogwyr y gellir eu defnyddio ar gyfer deunydd hyrwyddo yn y dyfodol. Dylai unrhyw un sy'n dymuno i ni beidio eu cynnwys nhw neu eu plentyn mewn lluniau ar gyfer deunyddiau hyrwyddo roi gwybod i'r arweinwyr ar ddechrau'r digwyddiad.

### **Cŵn**

Mae croeso i gŵn gydag ymddygiad da ar dennyn, lle nodir ym manylion y digwyddiad

### **Trogod**

Pan fyddwch yng nghefn gwlad rydych mewn perygl o gael eich brathu gan drogen. Gall trogod gludo amrywiaeth o glefydau felly mae'n bwysig eich bod yn gwybod beth i'w wneud os byddwch yn cael eich brathu, neu sut i osgoi cael eich brathu yn y lle cyntaf. I gael rhagor o wybodaeth ewch i [www.bada-uk.org](http://www.bada-uk.org).

### **Ysmygu**

Ni chaniateir ysmygu ar y digwyddiadau.

### **Atebolrwydd**

Mae'r trefnwyr wedi gwneud pob ymdrech ymarferol i sicrhau diogelwch yr holl unigolion sy'n cymryd rhan yn y digwyddiadau. Ond, ni fydd y trefnwyr yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw anaf, golled neu ddifrod i unigolion nac eiddo, sut bynnag y bydd yn cael ei achosi, os nad yw'n deillio o esgeulustod uniongyrchol gan y trefnwyr, ac os oes gan y trefnwyr ddyletswydd gofal. Rydym yn eich cynghori i drefnu yswiriant ar gyfer damweiniau ac anaf personol. Cyfrifoldeb yr unigolion sy'n cymryd rhan yn y digwyddiadau yw sicrhau eu bod yn ddigon heini ar gyfer y digwyddiad a bod ganddynt y cyfarpar addas. Mae arweinwyr y digwyddiadau yn cadw'r hawl i wrthod i unrhyw gyfranogwr heb gyfarpar addas gymryd rhan.